| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **16 Ebrill 2015** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Moderneiddio**<br>**Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Cynllunio Strategol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol 2013/14** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Cyhoeddiad blynyddol yw Adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol 2013/2014 (Atodiad 1, a gyhoeddwyd yn Chwefror 2015) sy'n dwyn ynghyd berfformiad gwasanaethau allweddol Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

1.2 Mae'n defnyddio ffynonellau gwybodaeth cyfredol i amlygu ac i ychwanegu cyd-destun at amrywiadau o ran perfformiad ledled Cymru ac yn nodi'r hyn y gall dinasyddion ei ddisgwyl oddi wrth wasanaethau allweddol awdurdodau lleol.

1.3 Y meysydd gwasanaeth y mae a wnelo'r adroddiad â nhw yw Gofal Cymdeithasol, Addysg, Hamdden a Diwylliant, Tai, yr Amgylchedd, Trafnidiaeth, Lles a Diogelwch Cymunedol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Er mwyn ystyried yr adroddiad cenedlaethol ar berfformiad awdurdodau lleol a pherfformiad Cyngor Sir Ddinbych mewn perthynas ag awdurdodau lleol eraill yn 2013/14.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor yn defnyddio'r adroddiad hwn er mwyn dynodi meysydd gwasanaeth penodol neu feysydd gwaith a fyddai'n elwa o graffu'n fanwl arnynt er mwyn gwella'r canlyniadau i ddinasyddion a gwella perfformiad cyffredinol y Cyngor a hwyluso cyflawniad y Cynllun Corfforaethol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd, yn cyflwyno adroddiadau hanner blwyddyn i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet ac yn llunio Adroddiad Perfformiad Blynyddol i werthuso cynnydd.

4.2 Sylweddolir bod yr adroddiad sydd wedi ei gyhoeddi yn berthnasol i Berfformiad Gwasanaethau pob Awdurdod Lleol a'i fod yn ymwneud yn hanesyddol â 2013/2014. Mae'n defnyddio Dangosyddion Strategol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a dangosyddion y Rhaglen Lywodraethu a

ffynonellau ystadegol swyddogol eraill fel sydd wedi eu hawgrymu gan arbenigwyr ym maes polisi ac ystadegau.

4.3 Gan ystyried y sefyllfa hanesyddol hon rydym wedi darparu yn Atodiad 2 sefyllfa gymharol Sir Ddinbych o ran y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol ar gyfer 2013/14.

4.4 Yn 2013/14 bu i Sir Ddinbych gadw ei safle fel y Cyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru am y bedwaredd flwyddyn o'r bron, gan mai gennym ni y mae nifer fwyaf y dangosyddion o fewn y chwartel uchaf, yn ôl Dangosyddion Strategol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru:

- O blith y 30 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, roedd 16 ohonynt yn y chwartel uchaf
- Uwchben y canolrif, mae ein safle wedi llithro mymryn, ac rydym bellach yn ail o ran safle yng Nghymru
- Cawsom welliant yn 19 o'r dangosyddion
- Rydym yn perfformio ymysg y gorau yng Nghymru mewn 6 o'r dangosyddion, gan rannu'r safle uchaf gydag awdurdodau lleol eraill.
- Ni oedd y Gorau yng Nghymru o ran canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, pan nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol (8.1% yn 2013/14), ac o ran; canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol a'i baratoi gogyfer â'i ailddefnyddio ac/neu ei ailgylchu (63.21% yn 2013/14).

4.5 Rydym hefyd wedi darparu y sefyllfa gyfredol ar ddiwedd Chwarter 3 (diwedd Rhagfyr 2014) ar gyfer y Pwyllgor (pan fo gwybodaeth chwarterol yn berthnasol) i sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu ystyried ein sefyllfa fwyaf diweddar mewn perthynas â'r dangosyddion hyn.

4.6 Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i ddeall y perfformiad cyfredol mewn perthynas â'n sefyllfa gymharol ac i ystyried hefyd unrhyw feysydd lle mae perfformiad yn wan er mwyn craffu arnynt mewn paratoad ar gyfer 2015/16.

4.7 Mae'r symud chwarteli o 2012/13 i 2013/14 a data cyfredol Chwarter 3 yn dangos:

4.7.1 O ran canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n profi 3 neu fwy o leoliadau, rydym wedi llithro o'r 2il chwartel i'r 3ydd chwartel. Esboniwyd hyn oherwydd i blant gael eu symud am resymau cadarnhaol. Mae perfformiad cyfredol Chwarter 3 ar lefel dda gan ei fod yn is na thargedau'r gwasanaeth a thargedau'r Cytundeb Canlyniadau, sef 10%.

4.7.2 O ran y ganran o asesiadau cychwynnol lle ceir tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei weld ar ei ben ei hun gan y Gweithiwr Cymdeithasol rydym wedi llithro o fod yn y chwartel uchaf i'r 2il chwartel (o 52.9% i 52.6% ). Mae data Chwarter 3, fodd bynnag, yn dangos bod ein perfformiad ar 53% (sefyllfa ardderchog sydd uwchlaw targed y gwasanaeth, sef 50%).

4.7.3 O ran cyfartaledd sgôr cymwysterau allanol plant 16 mlwydd sy'n derbyn gofal, rydym wedi llithro o'r 2il chwartel i'r chwartel isaf (dangosydd blynyddol).

4.7.4 O ran canran y disgyblion 15 oed mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg – rydym wedi llithro o'r 2il chwartel i'r trydydd chwartel (dangosydd blynyddol).

4.7.5 O ran canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a arferai fod yn berthnasol sydd â chynllun llwybr – rydym wedi llithro o fod yn y chwartel uchaf i fod yn y 3ydd chwartel. Mae data cyfredol Chwarter 3 yn dangos mai dim ond 66.67% sydd â chynlluniau llwybr, fodd bynnag, mae materion ynglŷn â chofnodi data yn broblem ar hyn o bryd a bydd hyn wedi ei ddatrys erbyn diwedd Chwarter 4.

4.7.6 O ran canran yr holl aelwydydd yr oedd posibilrwydd iddynt fod yn ddigartref ac a rwystrwyd rhag bod yn ddigartrefedd am o leiaf 6 mis - roedd amheuon ynglŷn â chysondeb data'r Awdurdodau Lleol ac ni wnaed unrhyw gymariaethau Cymru gyfan.

4.7.7 O ran canran yr oedolion y mae ganddynt docyn bws rhatach; rydym wedi llithro o'r 2il chwartel i'r 3ydd chwartel (dangosydd blynyddol).

4.8 Yn 2013/2014 roeddem yn parhau yn y chwartel isaf ar gyfer:

4.8.1 Cyfradd y bobl hŷn 65 + a gynorthwyir yn y gymuned – mae hyn, fodd bynnag, yn berfformiad derbyniol gan nad yw'n cymryd uchelgais Sir Ddinbych i ystyriaeth o ddiwallu anghenion pobl drwy gyfrwng gwasanaethau ailalluogi a gwasanaethau cymunedol yn hytrach na thrwy gyfrwng gofal a reolir.

4.8.2 Canran yr achosion o dipio anghyfreithlon sydd wedi eu clirio cyn pen 5 diwrnod gwaith – rydym yn parhau yn y chwartel isaf, fodd bynnag roedd perfformiad wedi gwella yn 2013/14 i 94.88%.

4.8.3 Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol - rydym yn parhau yn y chwartel isaf, fodd bynnag, mae data perfformiad yn dangos gwelliant ac nid ni bellach yw'r gwaethaf yng Nghymru ar gyfer y dangosydd hwn (dangosydd blynyddol).

4.9 Yn gyffredinol ar gyfer 2013/2014 roedd data cymharol y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn dangos:

- Ein bod wedi gwella ym mha chwartel yr ydym ar gyfer 5 dangosydd
- Ein bod wedi aros o fewn yr un chwartel â 2012/13 ar gyfer 18 dangosydd.
- Ein bod wedi syrthio i chwartel is ar gyfer 7 dangosydd (fel y manylir uchod).

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r adroddiadau perfformiad a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r Cynllun Corfforaethol. Mae'n galluogi'r Pwyllgor i

gyflawni ei swyddogaeth rheoli perfformiad yn effeithiol, ac yn galluogi'r Cyngor i arfer ei ddyletswydd i wella o dan y trefniadau hyn.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnig archwiliad ôl-weithredol o'n perfformiad ar gyfer 2013/14. Nid oes unrhyw gostau na goblygiadau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau eraill.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Dylid atodi templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

7.1 Nid oes angen gwneud asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn sydd wedi ei gyhoeddi.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Cyflwynir y papur hwn mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor i ystyried Adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol 2013/14. Bwriad y Pwyllgor yw defnyddio'r adroddiad fel arf i lywio gwaith y pwyllgor i'r dyfodol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

9.1 Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae gennym fframwaith rheoli perfformiad cadarn, proses gadarn er mwyn Herio Perfformiad Gwasanaethau a Phwyllgor Archwilio Perfformiad cadarn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi ei thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

11.2 Mae erthyglau 6.1 a 6.3.4(b) yn amlinellu rôl y swyddogaeth graffu o ran monitro a rheoli perfformiad.

**Swyddog Cyswllt:** Swyddog Cynllunio Strategol Ffôn: 07795 334836